



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

<b>TEITL</b>	<b>Rheoli Anymataliaeth Wrinol mewn Merched</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>18 Chwefror 2014</b>
<b>GAN</b>	<b>Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</b>

Cododd Jocelyn Davies AC bryderon yn y Cynulliad ar 14 Ionawr 2014 am ddigwyddiadau niweidiol yn gysylltiedig â llawdriniaethau ar gyfer problemau gyda'r bledren gan ddefnyddio tapiau di-densiwn y wain a rhwyllau. Rwyf wedi ymgymryd â'r gwaith o baratoi Datganiad Ysgrifenedig ar y mater hwn.

Mae Anymataliaeth Wrinol yn symptom cyffredin all effeithio ar ferched o bob oed, gan amrywio'n fawr o ran difrifoldeb a natur. Er mai anaml y bydd yn peryglu bywyd rhywun, gall anymataliaeth gael effaith ddifrifol ar les corfforol, seicolegol a chymdeithasol yr unigolion sy'n dioddef.

Cyhoeddodd Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ganllaw am y tro cyntaf ar reoli Anymataliaeth Wrinol mewn merched yn 2006 a diweddariad ar y canllaw (Canllaw Clinigol CG171) ym mis Medi 2013. Cefnogir y canllaw hwn gan ddwy set o ganllawiau gweithdrefnau myriad:

- ar atgyweirio cwmp wal y wain drwy lawdriniaeth gan ddefnyddio rhwyll (IPG267) a
- sacrocolpopecsi gan ddefnyddio rhwyll ar gyfer atgyweirio cwmp cromen y wain (IPG283)

Comisiynodd Asiantaeth Rheoli cynnyrch Gofal Iechyd Meddygol (MHRA) Brifysgol Efrog i adolygu'r llenyddiaeth a gyhoeddwyd ar y digwyddiadau niweidiol yr adroddir amlaf amdanynt, yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gan grwpiau cleifion am dâp di-densiwn y wain a gweithdrefnau rhwyll. Adroddodd Consortiwm Economeg Iechyd Prifysgol Efrog yn 2012 ynglŷn â chyfraddau digwyddiadau niweidiol cyffredin sy'n gysylltiedig â Thapiau Di-densiwn y Wain ar gyfer trin straen anymataliaeth wrinol a rhwyllau ar gyfer cwmp organau'r pelfis.

Yn gryno, roedd yr adroddiad yn cadarnhau:

- fod digwyddiadau niweidiol sy'n gysylltiedig â'r amrywiol dechnegau llawdriniaethol sy'n defnyddio Tapiâu Di-densiwn y Wain ar gyfer Straen Anymataliaeth Wrinol fel arfer o fewn yr amrediad 1-3% (9% ar gyfer dirywiad mewn swyddogaeth rywiol i un dechneg); a
- mae cyfraddau digwyddiadau niweidiol gan ddefnyddio rhwyllau'r wain ar gyfer cwmp organau'r pelfis o fewn yr amrediad 2-6% ar gyfer y rhan fwyaf o ganlyniadau, ond 14-15% ar gyfer dirywiad mewn swyddogaeth rywiol.

Daeth yr adroddiad i'r canlyniad nad oedd dehongli'r darganfyddiadau hyn yn rhwydd gan fod nifer o gleifion yn profi symptomau megis problemau rhywiol cyn cael llawdriniaeth, a chredir fod cyfraddau digwyddiadau niweidiol ar gyfer llawdriniaeth heb ddefnyddio mewnbhaniadau, yr un mor uchel neu'n uwch na'r rhai sydd yn defnyddio mewnbhaniadau. Teimlwyd bod angen mwy o wybodaeth ac mae disgwyl i dreial sydd ar y gweill i edrych ar dystiolaeth o ddiogelwch cymharol trwsio cwmp gan ddefnyddio dulliau trwsio'r meinwe cynhenid a mewnbhaniadau rhwyll, adrodd yn 2014.

Cyhoeddwyd llythyr i Gyfarwyddwyr Meddygol GIG Cymru gan Dr Heather Payne, yr Uwch Swyddog Meddygol, ym mis Ionawr 2013 ynglŷn â rheolaeth llawdriniaethol straen anymataliaeth wrinol a chwmp organau'r pelfis. Roedd y llythyr hwn yn tynnu sylw at argymhellion adroddiad Prifysgol Efrog a'r angen i gydymffurfio gyda chanllawiau presennol NICE a chanllawiau proffesiynol parod ynglŷn â defnydd diogel a phriodol o'r dyfeisiadau hyn.

Wrth ymateb i bryderon cynharach, datblygodd yr MHRA, drwy weithio gyda dwy gymdeithas broffesiynol - Cymdeithas Brydeinig Gynaecoleg Wrolegol (BSUG) a Chymdeithas Brydeinig y Llawfeddygon Wrolegol (BAUS), amrediad o ddeunyddiau ar gyfer clinigwyr a chleifion, gan gynnwys taflenni, a set o gwestiynau y dylai cleifion eu gofyn i'w llawfeddyg wrth ystyried llawdriniaeth bosibl. Mae'r rhain ar gael ar wefan MHRA.

Barn yr MHRA ar hyn o bryd yw bod rhwyll a mewnbhaniadau tâp yn llawdriniaeth ddiogel ac effeithiol, i'r mwyafrif o ferched, ond fel yn achos pob llawdriniaeth, mae rhywfaint o risg. Er bod nifer fechan o ferched wedi profi effeithiau gofidus a difrifol, mae'r dystiolaeth ar hyn o bryd yn dangos pan fydd y cynnyrch yma'n cael eu defnyddio'n gywir, y gallant helpu gyda symptomau gofidus y cyflyrau hyn, ac oherwydd hynny, mae'r manteision yn gorbwysu'r peryglon.

Mae'r MHRA yn parhau i annog adrodd yn wirfoddol am ddigwyddiadau niweidiol gan bob gweithiwr gofal iechyd, yn ogystal â gofalu'r cleifion a'r cyhoedd, er y derbynir mai prin iawn yw'r adrodd am gymhlethdodau. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno adrodd gofodol am ddigwyddiadau niweidiol am ddyfeisiadau meddygol gan weithwyr gofal proffesiynol; ond, mae'r sefyllfa'n cael ei hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod systemau priodol mewn lle i hwyluso'r adrodd am ddigwyddiadau niweidiol o bob ffynhonnell. Ynglwm yn Atodiad 1, mae'r data sydd ar gael ynglŷn â nifer y gweithdrefnau hyn a wnaed, ond hoffwn dynnu eich sylw at gyfyngiadau'r data.

Yn ddiweddar (Rhagfyr 2013), mae GIG Lloegr wedi rhoi rhagor o gyngor i glinigwyr ynglŷn â'r mater hwn i dynnu eu sylw at ganllawiau a ddiweddarwyd a chrynhoi nifer o gamau y tynnir sylw atynt isod, ac mae'r canllaw diwygiedig hwn yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd i Gyfarwyddwyr Meddygol y GIG yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i ddangos arfer dda yn glinigol mewn:

1. **Caniatâd** safoni'r holl brosesau caniatâd er mwyn cydymffurfio â'r dystiolaeth ddiweddaraf a rheoli risg ar bob lefel o'r unigolyn, GIG lleol ac ar lefel y DU hefyd.
2. **Archwilio** cydymffurfio ag argymhellion NICE y dylai gosod rhwyll fod yn rhan o archwilio rheolaidd; a bod **pob** gweithdrefn a llawdriniaeth anymataliaeth, ond yn enwedig y rhai sy'n cynnwys rhwyll, yn cael eu cofnodi ar fas data cydnabyddedig.
3. **Adrodd am ddigwyddiadau niweidiol:** adrodd am bob digwyddiad niweidiol yn ymwneud a Rhwyll a ddefnyddir mewn llawdriniaeth wrth yr Asiantaeth Rheoli Cynnyrch Gofal Iechyd (MHRA)
4. **Llawdriniaeth i dynnu rhwyll:** dangos lefelau perthnasol o ofal arbenigol (drwy archwiliad o nifer a chanlyniadau llawdriniaethau)

## Atodiad 1

### Cyfnod ymgynghoriad gorffenedig ar gyfer merched sydd wedi derbyn gweithdrefn lawdriniaethol sylfaenol neu eilaidd ar gyfer gosod rhwyll ar draws y wain, tâp traws-selio, sling ar draws y wain a thâp ar draws y wain.

Gweithdrefn	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13
Gosod rhwyll ar draws y wain neu osod sling ar draws y wain	45	29	20	22	24	16
Gosod tâp traws-selio	306	355	405	306	284	265
Gosod tâp ar draws y wain	388	398	322	329	310	365

**Ffynhonnell:** PEDW (Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru), NWIS (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)

**Nodiadau:**

- Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffigurau yn y tabl hwn gyda data a gyhoeddwyd gan wledydd eraill gan y gall cod y weithdrefn amrywio.
- Mae gosod rhwyll ar draws y wain a gosod sling ar draws y wain wedi eu cyfuno, gan fod cyngor codio clinigol yn dweud nad oes ffordd o'u hadnabod ar wahân.
- Mae'n ymwneud â gweithgarwch yn Ysbytai GIG Cymru a gweithgarwch a gomisiynwyd gan GIG Cymru yn y sector annibynnol.
- Nid yw'r ffigurau'n cynrychioli nifer y cleifion gwahanol, gan y gall rhywun gael mwy nag un cyfnod o ofal o fewn yr un arhosiad yn yr ysbyty neu mewn gwahanol arhosiad yn ystod yr un flwyddyn.
- Defnyddiwyd fersiwn wahanol o Ddosbarthiad OPCS o godau Ymyriad a Gweithdrefnau cyn 2007-08 yng Nghymru ac felly ni ellir cymharu â data cyn 2007-08.
- Dyma'r codau a ddefnyddiwyd ar gyfer grwpiau unigol:  
Gosod rhwyll ar draws y wain neu osod sling ar draws y wain - M538  
Gosod tâp traws-selio - M536  
Gosod tâp ar draws y wain - M533

### Cyfnod ymgynghoriad gorffenedig ar gyfer merched sydd wedi derbyn gweithdrefn lawdriniaethol sylfaenol neu eilaidd ar gyfer tynnu tâp traws-selio a rhwyll ar draws y wain.

Gweithdrefn	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13
Tynnu tâp traws-selio	2	2	5	3	4	4
Tynnu tâp ar draws y wain	25	22	20	17	18	22

**Ffynhonnell:** PEDW (Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru), NWIS (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)

**Nodiadau:**

- Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffigurau yn y tabl hwn gyda data a gyhoeddwyd gan wledydd eraill gan y gall cod y weithdrefn amrywio.
- Mae'n ymwneud â gweithgarwch yn Ysbytai GIG Cymru a gweithgarwch a gomisiynwyd gan GIG Cymru yn y sector annibynnol.
- Nid yw'r ffigurau'n cynrychioli nifer y cleifion gwahanol, gan y gall rhywun gael mwy nag un cyfnod o ofal o fewn yr un arhosiad yn yr ysbyty neu mewn gwahanol arhosiad yn ystod yr un flwyddyn.
- Defnyddiwyd fersiwn wahanol o Ddosbarthiad OPCS o godau Ymyriad a Gweithdrefnau cyn 2007-08 yng Nghymru ac felly ni ellir cymharu â data cyn 2007-08.
- Dyma'r codau a ddefnyddiwyd ar gyfer grwpiau unigol:  
Tynnu tâp traws-selio - M537  
Tynnu tâp ar draws y wain - M534, M535

Rhwng 2005 a 2013, mae'r Asiantaeth Rheoli Cynnyrch Gofal Iechyd a Meddyginiaethau (MHRA) wedi derbyn 1 adroddiad yn unig ble rhoddwyd cyfeiriad cyswllt yng Nghymru (yn 2011) ynghlŷn â digwyddiadau niweidiol yn ymwneud a mewnosodiadau tâp a rhwyll ar y wain.

***Nifer y digwyddiadau ynghlŷn â diogelwch o ran rhwyll a ddefnyddiwyd mewn gweithdrefnau gynaeolegol a adroddwyd wrth y System Adrodd a Dysgu Cenedlaethol (blwyddyn y digwyddiad yn ôl graddau'r niwed yr adroddwyd amdano)***

	<i>Dim niwed</i>	<i>Isel</i>	<i>Cymedrol</i>	<i>Difrifol</i>	<i>Cyfanswm</i>
2008	1	0	0	0	1
2009	0	1	1	1	3
2010	1	2	0	0	3
2011	2	1	0	0	3
2012	3	0	0	0	3
2013	1	2	0	0	3
Cyfanswm	8	6	1	1	16

***Ffynhonnell:*** NRLS

***Nodiadau:***

- Mae graddau'r niwed yn amodol ar yr adroddwr a allai beidio dilyn canllawiau NRLS ac weithiau fe'i camgymerir am niwed posibl yn hytrach na graddau'r niwed mewn gwirionedd i'r claf